Stadiwm y Liberty, Abertawe

The Big Bang Cymru

Y GENHEDLAETH DDIGIDOL YN DYFODOL YN NA

28ain Mehefin 2012

The Big Bang Cymru - dathliad cenedlaethol o Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yng Nghymru.

A fydd eich disgyblion chi'n cael profi gwefr a chyffro prif ddigwyddiad Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg Cymru i ddisgyblion rhwng 8 - 18 oed?

Mae Big Bang Cymru yn darparu:

- Digwyddiad cenedlaethol i ysgolion a cholegau er mwyn iddynt allu arddangos eu prosiectau gorau a luniwyd gan ddisgyblion rhwng 11 - 18 oed ym maes Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
- Cyfle i ennill llu o wobrau a chyfle i gystadlu yn The Big Bang UK: digwyddiad i Wyddonwyr a Pheirianwyr Ifainc a gynhelir ym mis Mawrth 2013
- Gweithdai deniadol, stondinau rhyngweithiol a sioeau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg fydd yn dal sylw, yn ysgogi ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion
- Ysbrydoliaeth i'r disgyblion hynny nad oes ganddynt hyd yma gyswllt â Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

Cystadlaethau a Gwobrau:

Y Gystadleuaeth Wyddoniaeth a Pheirianneg Genedlaethol

Bwriad y Gystadleuaeth Wyddoniaeth a Pheirianneg Genedlaethol yw arddangos a gwobrwyo'r prosiectau gorau o waith disgyblion o bob maes ym myd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob disgybl rhwng 11-18 oed sy'n byw yn y DU. Bydd yr ymgeiswyr gorau yn The Big Bang Cymru yn cael eu gwahodd i arddangos eu prosiect yn Ffair Gwyddonwyr a Pheirianwyr Ifainc y DU: The Big Bang (The Big Bang: UK Young Scientists' and Engineers' Fair) a gynhelir ym mis Mawrth 2013. I gael mwy o fanylion, ewch i: www.nationalsciencecompetition.org

Arddangosfeydd Clybiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg

Estynnwn groeso i Glybiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) – yn y sector cynradd ac uwchradd – i arddangos eu gwaith dyfeisgar a symbylol. Mae'n bosib hefyd y bydd Clybiau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn cael eu gwahodd i arddangos eu gwaith yn The Big Bang: UK ym mis Mawrth 2013

Dathliadau Rhanbarthol CREST

Cynllun gwobrwyo cenedlaethol mwyaf Prydain am waith prosiect mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yw CREST - enillodd 25,000 o bobl ifainc Wobrau CREST yn ystod y flwyddyn a aeth heibio'n unig. Cynhelir dathliadau rhanbarthol CREST yn The Big Bang Cymru. Mae unrhyw ddisgybl neu dîm o ddisgyblion sydd wedi cwblhau gwobr CREST hefyd yn gymwys i gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Wyddoniaeth a Pheirianneg Genedlaethol yn The Big Bang Cymru.

Cystadleuaeth Peiriannydd Ifanc i Brydain

Cystadleuaeth Peiriannydd Ifanc i Brydain yw'r cyfle mwyaf yn y DU i ddisgyblion 11-19 oed (yn unigolion a thimau) arddangos eu prosiectau arloesol a chreadigol ym maes peirianneg ac i gystadlu am wobrau rhyfeddol. Gall disgyblion gyflwyno prosiectau a gwblhawyd fel rhan o'u gwaith cwrs h.y. TGAU/ Safon A/Diploma/CBATh (neu gyfwerth) neu brosiectau a gwblhawyd fel rhan o'u gweithgareddau personol. Ni chodir tâl am gystadlu a chaiff pob math o brosiectau peirianneg/ technoleg eu derbyn ar gyfer y gystadleuaeth hon. Os hoffech fwy o fanylion, ewch i: www.youngeng.org

Cystadleuthau a gwobrau eraill

Rydym yn y broses o ddatblygu cystadlaethau eraill fydd yn cynnwys y themâu: Cymru Ddigidol ac Effeithlonrwydd Ynni a Gollyngiadau. Caiff y disgyblion y cyfle i ddatblygu, cynllunio a chreu cynhyrchion ac i gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Wyddoniaeth a Pheirianneg Genedlaethol.

Bydd dyfarniadau a gwobrau ychwanegol ar gael gan noddwyr y digwyddiad.

Rhaid i unrhyw ddisgybl/dîm fydd yn mynychu'r digwyddiad baratoi arddangosfa weledol a dylent fod yn gallu siarad â'r beirniaid am eu prosiect. Bydd estyll arddangos, byrddau a mynediad i'r rhyngrwyd ar gael.

At hyn, byddwn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer ysgolion / colegau sy'n dymuno dod â disgyblion i'r digwyddiad.

I gofrestru, cysylltwch os gwelwch yn dda â:
Louise Helliwell ☎ 01792 352021
✉ louise.helliwell@cwwest.co.uk

Gyrfa Cymru Careers Wales

e-sgiliau DU

www.bigambitionwales.com